Cyngor Cymuned LLANBRYNMAIR Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Nos Fercher, 2ail mis Hydref 2024

Presennol
Cynghorwyr – E Davies (Cadeirydd), D Jones, F Cauley, B Jones, I Edwards, S Evans, R Ashton, E Lewis, G Davies a G Mitchell (Powys)

Ymddiheuriadau - P Jones

Cynnigiodd y Cadeirydd, E Davies, croeso cynnes i bawb

Cyflwyniadau –

Datganiadau diddordeb –

Cytuno Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 4ydd o mis Medi
Pawb yn gytun

Materion yn codi

1. Cae Cymunedol - Mae angen troi'r arwyddion rownd ar y gât eto. Cynnigwyd rhoi'r bainc sydd i fynd yn Llan ar y cae mawr dros dro. B Jones i edrych ar sut yw osod yn saff.
2. Cyfleusterau cyhoeddus - Mae'r gwaith trydannol wedi ei orffen ac yn aros am diweddariad ar y plymio. Diolch yn fawr iawn i I Edwards a Becky Rowlands am eu waith called. Mae S Reast dal yn aros am y 'Leakage Allowance' gan Hafren Dyfrdwy
3. Offer diffibrilwyr yn ardal Llanbrynmair - Mae I Edwards yn cynnig trefnu hyfforddiant trwy Thomas Hughes ar y 5ed o Tachwedd. Mae pads newydd i diffibrilwr Talerddig a Pennant wedi eu archebu
4. "Concealed entrance", Maes yr Efail – B Jones a R Ashton i helpu gosod postyn metal yn ei le ar gyfer drych – dim diweddariad
5. Tocio'r shetyn a mieri yn Bont – F Cauley yn aros am rhif ffôn i'r arbenigwyr gan fod y brigiau mor agos i'r gwifren uwchben
6. Bainc yn Dolfach – Mae Toni Evans wedi cadarnhau fydd o'n gwneud y gwaith cyn gynted a phosib
7. Ffens o amgylch y Pump House yn Bont – S Reast wedi cysylltu efo Paul Williams, mae o'n cadarnhau fod y ffens ar ei rhestr o waith. Mae'r gwair ar ymyl y ffordd wedi ei thorri
8. Problemau gyda'r Ganolfan Iechyd – Cadarnhawyd fod y newidiadau arfaethedig wedi'u gohirio
9. Baw cŵn – S Reast wedi cwrdd â plant Ysgol Llanbrynmair i drefnu creu posteri
10. Llwybr heibio Ysgoldy Talerddig angen giat – S Reast wedi gwneud ymholiadau ynglyn a perchnogaeth y tir a derbynwyd y drafft ar gyfer llythyr iddynt
11. Peipen nwy yn mynd ar draws ffordd Brynaire – S Reast wedi atgoffa Cyngor Sir Powys i cydlyny'r ymholiad gyda'r cwmni nwy
12. Problemau yng Nghlanclegyr – G Mitchell wedi cwrdd a swyddogion Adran Tai ar y safle i trafod amryw o bethau gyda safleoedd parcio yn blaenoriaeth. S Reast wedi gofyn am cyflwyniad ygrifenedig gan rheini sydd a diddordeb mewn gerddi

13. Cyflwr dŵr – F Cauley yn gwneud ymholiadau am profi'r dŵr, mae angen gwybod yn union ble sydd rhaid gwneud y profion a cael caniatad gan tirfeddanwyr. Mae Paul Williams o Dŵr Cymru yn fodlon i rhannu data hefyd
14. Cefnogaeth ariannol am gwasanaeth cyfieithu – Angen mwy o ymchwil
15. Wal yn Llan – Cafwyd cadarnhad mae nid perchenog y tŷ tu ôl i'r wal sydd yn gyfrifol amdano. Gofynwyd am tystiolaeth ysgrifenedig neu mewn ffurf cynllyn
16. Coed yn tyfu ar Pont Bel – S Reast wedi gwneud ymholiadau gyda Network Rail ond heb cael esboniad digon drylwyr
17. Polyn fflag wrth y Canolfan Cymdeithasol – S Reast i gwneud ymholiadau eto ynglyn a cael y polyn yn ôl
18. Llwytho coed yn Bont – Cadarnhawyd fydd y gwaith yma yn dod i ben o fewn wythnos ac bod rhywfaint o clirio wedi ei gwneud. Mi fydd glanhau'r ffordd yn cael ei cwbwlhau wrth i'r llwytho orffen. Bydd mwy o goed yn cael ei tynu allan yng Ngelli Dywyll a Cwm Calch yn y misoedd i ddod ond ni fyddent yn cael eu lwytho ar y ffordd
19. Ffair y Ganolfan – Bydd y ffair yn cael ei gynal ar y 25ain o Hydref am 6.00yh. Fydd y Cyngor yn rhedeg stondin poteli fel arfer
20. Coeden Nadolig – Penderfynwyd rhoi'r goeden wrth y ganolfan cymdeithasol fel llynedd. B Jones i ystyried yr anghenion
21. Sul y Cofio – Fydd yna gwasanaeth yn y Ganolfan Cymdeithasol ar y 10fed o mis Tachwedd am 10.00yb. S Reast a E Davies i'w drefnu
22. Pont Crugnant - Cafodd Pont Crugnant ei daro gan lori ar nôs Sul y 22fed o Hydref yn gadael difrod sylweddol. Gofynwyd am unrhyw wybodaeth amdano
23. Awdit 2023-24 – Mae Awdit Cymru wedi cwbwlhau'r gwaith ar y cyfrifion ac fydd angen ei cyhoeddi i rhoi siawns i trigolion eu weld
24. Parcio o flaen hysbysfwrdd a bainc yn Bont – Gofynwyd am ystyriaeth a gofal wrth rhwystro mynediad trwy parcio am amser hir. Penderfynwyd paentio llinellau melyn ar y safle
25. Sietyn yn Nhalerddig wrth y lloches bws – Diolch i I Edwards am tocio a thacluso
26. Sietyn wrth Pont Bel – Diolch i G Davies, B Jones, I Edwards a E Davies am torri a clirio

Materion ffyrdd

CSP

Lleoliad	**Adroddwyd**	**Nodiadau**
Gridiau gwartheg – Talerddig, Cwm Nant yr Eira a Cwm Calch	Ie	Grid wrth Llwyncelyn wedi ei wneud. Gridiau eraill hyd at Cwm Calch wedi eu arolygu, mae'n bosib fydd yr un uwchben Ffarm Talerddig yn cael ei wneud nesaf
Ochrau ffordd rhwng Pennant a Crugnant		Cynnigwyd gofyn am pyst
'Sleeping policeman' wrth yr ysgol		G Mitchell yn dweud na fydd unrhywbeth yn digwydd tan bod arolygiad y 20mya wedi cwbwlhau
Twll wrth y capel, Bont		S Reast i adrodd i CSP
Cyflymder ceir trwy Bont		Gofynwyd i trigolion cofnodi platiau rhif a'u adrodd i'r heddlu

Cyflwr Ffordd Cwmffynnon		Ochrau yn disgyn. S Reast i adrodd i CSP ond yn anhebyg o fod yn flaenoriaeth
Cyflwr Ffordd i Coed		S Reast i adrodd i CSP ond yn anhebyg o fod yn flaenoriaeth
Cones ar ochr Ffordd Pandy		Gofynnwyd am eglurhad o rheolau ynglyn a'r meter cyntaf ar ymylon pob ffordd. Dealltwyd fod pob sefyllfa yn anghyson ac yn aneglur

Asiant Cefnffyrdd

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
Cyflymder traffig yn Nhalerddig	Ie	Aros am cyfarfod eto ar y safle gyda cynrichiolwyr Asiantaeth Ffyrdd
Cyflwr arwyneb y ffordd ar ochr Dwyreiniol Pont Bel	Ie	S Reast wedi adrodd i Asiantaeth Ffyrdd

Goleuadau stryd

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
Islaw Bryn Coch	Ie	Coed wedi eu thocio ond dim ond i 5 troedfedd o uchder. Angen mwy o sylw
Llan Hen Siop	Ie	LLN06 Angen caniatad ysgrifenedig gan y perchenog
Llan	Ie	LLN05 wedi torri
Canol y pentref	Ie	Goleuadau dal ymlaen o hyd

Adroddiad ar lafar gan Cyng Gary Mitchell (Cyngor Sir Powys)

Gohebiaeth

Cynllunio

- 24/1135/HH | Construction of a timber garden shed/workshop with a pitched roof | Bryntirion Talerddig Llanbrynmair Powys SY19 7AJ - Cefnogwyd

Cyfriflen a balans ariannol

Ar gael ar 29/09/24

Cyfrif Cyfredol	£3841.77
Cyfrif Cadw	£2,942.33
Cyfanswm	£6,784.10
Sieciau heb eu cyflwyno	£0
Balans ar gael	£6,784.10

Ceisiadau a thaliadau ariannol

£	Eitem	Cyfanswm	Nodiadau
02/10/24	Cyflog y Clerc - Medi	£397.60	Cytunwyd
02/10/24	Treth ac NI ar cyflogau Awst	£141.40	Cytunwyd

02/10/24	E.ON Next – Trydan Awst	£16.67	Wedi talu
02/10/24	PHS Duty of Care	£104.45	Wedi talu
02/10/24	Border Janitorial Supplies	£63.24	Wedi talu
02/10/24	S J Ashworth – Glanhau Toiledau	£168.00	Cytynwyd
02/10/24	R A Hughes - Cyfieithu	£120.00	Cytynwyd
02/10/24	Adam Toye - Drysau	£680.00	Wedi talu
02/10/24	Eisteddfod Ffermwyr Ifanc Maldwyn - Cyfraniad	£200.00	D Jones yn cynnig, G Davies yn eilio, pawb yn gytun
02/10/24	RMR Electrical	£573.79	Ymholiad ychwanegol i'w gwneud

Unrhyw fater arall

Eitemau ar gyfer yr agenda nesa

- I Edwards – Adroddiad o Llywodraethwyr yr Ysgol
- G Davies – Gwifren BT wrth y Wig
- B Jones – Arwydd am y toiledau ar y B4518
- F Cauley – Casglu prescripsiannau o siop yn hytrach na'r ganolfan iechyd

Cynhelir y cyfarfod canlynol ar Nos Fercher, 6ed mis Tachweddd 2024

Sarah Reast, Clerc i Gyngor Cymuned Llanbrynmair